**EITEM AR YR AGENDA: 8**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

**30ain Ionawr 2012**

## LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL

**Adroddiad gan Virginia Stevens, KPMG**

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Diben yr adroddiad yw cyflwyno'r Llythyr Archwilio Blynyddol i Aelodau.

## CEFNDIR

2 Yn dilyn cyflwyno'r Mesur Llywodraeth Leol 2009, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi newid y modd mae'n adrodd ei ganfyddiadau am yr archwiliadau ariannol a pherfformiad. Bydd y mwyafrif o faterion, a arferai gael eu hadrodd yn y Llythyr Archwilio Blynyddol, yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol yn y dyfodol.

## GWYBODAETH

3 Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol a atodir fel Atodiad 1 yn crynhoi'r prif negeseuon a ddaw o gyfrifoldebau statudol yr Archwiliwr. Mae'r llythyr yn ddogfen ar wahân ond fe'i cyflwynir i'r Awdurdod a'r cyhoedd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol ac felly'n cyflawni dyletswyddau'r Archwiliwr yn unol â'r Cod Archwilio.

## ARGYMHELLIAD

4 Argymhellir fod y Pwyllgor Archwilio yn derbyn y Llythyr Archwilio Blynyddol ac yn nodi hefyd y bydd y ddogfen yn cael ei chyflwyno i'r Adroddiad a'r cyhoedd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Simon Smith
Prif Swyddog Tân
Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Llanelwy, Sir Ddinbych
LL17 OJJ

**Dyddiad** 30 Tach. 2011



Annwyl Simon

**Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Awdurdod Tân Gogledd Cymru**

Fel y gwyddoch, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhoi Adroddiad Gwella Blynyddol i bob awdurdod lleol erbyn diwedd Ionawr 2012, ac yn yr adroddiad cynhwysir rhai o'r materion a adroddid yn draddodiadol yn y Llythyr Archwilio Blynyddol. Felly, rwyf wedi cymryd y cyfle i roi crynodeb o'r materion allweddol sy'n codi o'm cyfrifoldebau statudol yn y llythyr byr hwn sef y Llythyr Archwilio Blynyddol. Bwriad y llythyr yw bod yn ddogfen sy'n sefyll ar ei phen ei hun, ond bydd hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod a'r cyhoedd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol, ac felly mae'n cyflawni fy nghyfrifoldebau adrodd dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd Awdurdod Tân Gogledd Cymru gyda'r gofynion adrodd sy'n ymwneud â'i berfformiad ariannol a'i ddefnydd o adnoddau**

1. Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:
   - rhoi systemau rheolaeth fewnol yn eu lle er mwyn sicrhau bod trafodion yn rheolaidd a chyfreithlon, ac er mwyn sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
   - cadw'r cofnodion adrodd cywir;
   - llunio Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
   - sefydlu a chadw golwg ar drefniadau priodol er mwyn sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y modd y mae'n defnyddio adnoddau.
2. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) Act 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:
   - ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
   - adolygu trefniadau'r Awdurdod ar gyfer sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
   - rhoi tystysgrif sy'n cadarnhau fy mod wedi cwblhau archwiliad o'r cyfrifon.
3. Ar 30ain Medi 2011, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu i gadarnhau eu bod yn rhoi golwg gywir a theg ar sefyllfa ariannol a thrafodion yr Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi ei gynnwys o fewn y Datganiad o Gyfrifon. Cafodd nifer o faterion a oedd yn codi o'r archwiliad o'r cyfrifon eu hadrodd i'r aelodau yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol. Fodd bynnag, roedd nifer o newidiadau i'r cyfrifon drafft a oedd yn rhoi pwysau diangen ar yr amserlen.

4. Ers 2010/11, mae gofyn i awdurdodau lleol yng Nghymru lunio eu cyfrifon ar sail y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (Safonau IFRS). Mae dyfodiad y safonau newydd hyn wedi rhoi gofynion ychwanegol sylweddol ar staff cyllid yr Awdurdod. Er y pwysau ychwanegol hyn, lluniwyd y cyfrifon erbyn y dyddiad terfynol statudol. Nodwyd y materion canlynol mewn perthynas â'r cyfrifon:

- Roedd y Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer 2009-10 yn pwysleisio pwysigrwydd llunio mantolen agoriadol a set ddrafft o gyfrifon y Safonau IFRS cyn gynted ag y bo modd. Mae nifer y datgeliadau ac adolygiadau coll i'r Datganiad o Gyfrifon yn dangos bod amserlen y prosiect wedi llithro, a bod tanamcangyfrif o faint o waith a oedd i'w wneud. Fodd bynnag, llwyddwyd i gwrdd â phob dyddiad terfynol trwy gydweithio agos rhwng y tîm cyllid a'r tîm archwilio.
- Fe wnaeth yr oedi wrth lunio'r Datganiad o Gyfrifon effeithio ar yr archwiliad o'r datganiad i Gyfrifon y Llywodraeth Gyfan (CLIG), ni dderbyniwyd pecyn CLIG a oedd yn ymgorffori'r newidiadau i'r datganiadau terfynol tan 27ain Medi. Ni lwyddwyd i gwrdd â dyddiad terfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno datganiadau archwilio, sef 30ain Medi, gan nad oedd digon o amser i gwblhau'r archwiliad. Dylai'r Awdurdod sicrhau bod pecynnau diwygiedig y CLIG yn cael ei cwblhau'n brydlon a'u hanfon i'r tîm archwilio gyda dogfennau i gefnogi.

5. Mae fy arolwg o drefniadau'r Awdurdod ar gyfer sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi ei seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon, ynghyd â dibynnu ar y gwaith a wnaed fel rhan o'r Asesiad Gwella dan y Mesur Llywodraeth Leol (2009). Nodir prif ganfyddiadau gwaith yr olaf yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Hefyd, rwy'n dwyn y materion canlynol i'ch sylw:

- Mae'r Awdurdod wedi parhau i ddatblygu ei drefniadau ar gyfer cynllunio ariannol tymor canolig, gan sicrhau ei fod mewn gwell sefyllfa i fynd i'r afael â'i heriau ariannol.
- Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol, dan ei gylch gorchwyl, am ddarparu Rheolaeth ariannol, adnoddau a chyffredinol a Sicrwydd, ac mae hyn yn cynnwys ystyried adroddiadau Archwilio Mewnol. Gellir gwneud gwelliannau i'r ffordd o adrodd am ganfyddiadau Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Archwilio. Dylid cynnwys crynodeb ysgrifenedig (yn hytrach nag ar lafar) o'r gwaith Archwilio Mewnol yn y cyfnod, gan nodi'r gwaith a wnaed, y casgliadau a'r canfyddiadau allweddol, a hynny er mwyn i'r Aelodau ystyried materion o flaen llaw. Byddai 'olrhain argymhellion' yn caniatáu i'r aelodau fonitro cynnydd a darparu sicrwydd bod yr argymhellion Archwilio Mewnol yn cael eu gweithredu gan y rheolwyr.
- Mae'r Awdurdod wedi cryfhau ei broses rheoli risg trwy ddatblygu Cofrestr Risg Corfforaethol. Mae hyn i fod i gael ei drafod a'i fabwysiadu gan y Panel Gweithredol cyn bo hir, a deallwn y bydd yn cael ei adolygu gan y Pwyllgor Archwilio o leiaf unwaith y flwyddyn.

6. Rhoddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o’r cyfrifon wedi ei gwblhau ar 30ain Medi 2011.
7. Ar hyn o bryd, disgwylir i’r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2010/2011 fod yn unol â’r hyn sydd yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol.

Yn gywir

Virginia Stevens
Ar gyfer ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
cc. Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân